

## **Gweddiau a litwrgi o'r Eucharist ar Fai 4ydd mewn cyfarfod o Grwp St Deiniol**

Gweddi Agoriadol

Ti sy'n Dduw i bawb, edrych arnom mewn cariad.

Boed i'n haddoli nawr

Darddu o ddyfnder ein calonnau, mewn ffydd

Trwy gyffyrddiad dy Ysbryd Glân

Ac yn enw Iesu Grist. Amen

Ar ôl y gyffes:

O Dduw, trwy dy gariad a'th faddeuant, gweddiwn

Am i ti ein hail-lunio i'r dyfodol, trwy gyffwrdd â ni.

Cariad yw Duw ac fe'n gelwir i drigo yng nghariad Duw:

Yn eich edifeirwch maddeuir i chwi,

o dderbyn maddeuant fe'ch adnewyddir

i'ch hadnewyddu fe'ch hail lunir gan gyffyrddiad Duw.

Cadarnhau'r Ffydd

**Credwn yn Nuw'r Drindod Sanctaidd,**

**Creawdwr, Gwaredwr a Sancteiddiwr.**

**Yr un yn Dri a symudodd ar draws a thrwy uchelderau a dyfnderau'r byd hwn;**

**Yn y Duw a lefarodd trwy'r proffwydi,**

**a wahanodd y dyfroedd ac a alwodd allan yr Ysbryd Glân ar Fair Forwyn.**

**Credwn yn Nuw, a ddaeth i'r ddaear mewn cnawd dynol**

**gan fyw a synhwyro fel y gwnawn ni.**

**Duw Ymgnaudoledig a ddioddefodd gasineb y byd**

**Ac a grogwyd yn uchel ar groes wedi ei hoelio yno**

**O achos pechodau'r ddynoliaeth, ar y pryd a thrwy'r oesoedd**

**Credwn yn yr Ysbryd Glân**

**Ddoethineb, Arweinydd ac Ysbrydoliaeth**

**A'n harweiniodd ac a fydd yn ein harwain**

**Bawb yn ffordd y ffydd a gwasanaeth ffyddlon,**

**Sy'n agor ein calonnau i bopeth sy'n bosibl **ac amhosibl** ???**

**A dangos i ni ffordd y bywyd tragwyddol.**

**Amen**

Yn yr Eucharist

Ffynhonell goleuni a llawenydd, derbyn y cwbl a offrymwn yn y wledd lawen hon –  
bara'r cynhaeaf a gwin y winwydden –

Boed i ninnau dyfu ynddo ef sy'n uno'n bywydau â'th eiddo Di o Dduw,

Er mwyn Iesu, fab Duw a Mair, wedi ei gyfodi, yma'n bresennol gyda ni,

Nawr ac am byth.

Amen. Haleliwia.

Ffurf o Weddi'r Arglwydd

O Dduw, sancteiddier dy Enw a dywelltir i'r byd

I ddwyn goleuni dy gariad a'th dangnefedd i'r cread cyfan,

Yn ein newyn corfforol ac ysprydol

Bwyd a maetha ni, a thorri'n syched

Er mwyn i ni gynnig i eraill

Letygarwch dy rodd o groeso i ni

Clyw ein cri am faddeuant

Ac chyda'th drugaredd a'th gariad yn ein calonnau

Boed i ninnau faddau i'r rhai sy'n peri dolur i ni.

Canys ti yw'r Cariad sy'n rhoi ei hunan, nawr a thrwy'r holl oesoedd. Amen

Wrth dorri'r bara

Clywch doriad y bara, bara o'i dorri y gellir ei rannu,  
o'i rannu daw'n rhan o waith a gweinidogaeth Crist.

**Wrth ei dderbyn gwyddom ein bod yn un â'n gilydd**

**Ac â holl deulu Duw trwy'r byd i gyd.**

Crist yw'r bara sy'n dod o'r nf

**Arglwydd dyro i ni'r bara hwn am byth**

Gweddi'r ôl Gymun wedi ei ail ysgrifennu.

Dduw haelionus, bwydaist ni wrth dy fwrdd nefol

Cynneu ynom dân presenoldeb dy Ysbryd Glân,

Dyfnhâ'n hiraeth am ddilyn y Crist atgyfodedig,

Galluoga ni i fwydo eraill â chyfiawnder a thangnefedd yn ein calonnau

I ddatguddio dy gariad hael a holl-gynhwysol;

Trwy Iesu Grist

Amen

Bendith

Boed i gariad Diw gael ei arllwys arnom, gan drawsnewid ein bywydau,

Boed i haelioni Duw ein llanw, gan agor allan ein bywydau

Boed i alwad Duw arnom, lefaru byth i'n calonnau

A bendith Duw....

Gweddiau o:

## **CROESI'R TROTHWY- DOETHINEB YN YMAGOR**

### **ADDOLI I GLOI**

Ddoethineb Sanctaidd sy'n ymagor,

**Cariad cynhesol Duw a'i lais tyner**

**Sy'n ein denu tuag at yr hyn y galwyd ni i fod**

Ddoethineb Sanctaidd sy'n ymagor,

**Duw'n ymarllwys wrth i ddwylo gyffwrdd**

**A'n gwisgo mewn gobaith a llawenydd**

Ddoethineb Sanctaidd sy'n ymagor,

**Duw'n bod ac yn siarad ynom ni**

**Yn aros yng nghanol ein bywydau**

Ddoethineb Sanctaidd sy'n ymagor,

**Cariad traws-newidiol Duw**

**Sy'n croesi trothwy, yn chwilio am gyfiawnder.**

Ddoethineb Sanctaidd sy'n ymagor,

**Dduw sy'n dragwyddol bresennol**

**Yn ein tywys heddiw ac am byth**

**Croesi Trothwy – agor ein doethineb a'i gyd-weu**

*Mae pawb yn cymeryd darn o ruban neu wlan.*

*Wrth ei ddal diolchwn i Dduw am ein doethineb ni'n hunain, doethineb y gallwn ei rannu.*

*Clymwn y darn gwladn neu ruban i'r un sy' gan y person nesaf atom nes bod pawb wedi eu cysylltu mewn cylch ac wrth wneud dyn dywed' Rwy'n rhanu fy noethineb gyda chi.*

Dduw pawb ohonom,

**Rwyt ti'n galw arna'i i rannu'r ddoethineb y bendithiais fi â hi,**

**Rwyt ti'n fy ngalw i groesi trothwy, ac i fentro i fywyd newydd ynot ti,**

**Bywyd yr wy'n ei rannu gyda'r rhai sydd wedi dod ynghyd yma a minnau'n adnabod pawb ohonyn'nhw.**

Dduw pawb ohonom

Llanw fi â'r ddoethineb i geisio cyd-raddoldeb,

tosturi i geisio cyfiawnder

cariad i geisio cael fy nerbyn

gobaith i geisio tangnefedd

ffydd i dy geisio di.

Amen.

*Gweddiau o Weddiau agoriadol MAECymru Sadwrn, Mawrth 18ed 2017*

Wrth i ni ddod ynghyd ar ddechrau'r dydd heddiw, agor ein calonnau o Dduw

**I glywed y cwbl a ddywedir**

**Heria'n crebwyll trwy'r cwbl a glywn**

**Rhyddha'n tafodau i lefaru'n agored**

**I'r byd heddiw,**

**Ac atgoffa ni i beidio byth ag anghofio'r rhyddid sydd gennym i ddefnyddio'n lleisiau er llês pawb a thros y rhai y distawyd eu lleisiau**

Chwarddodd Sara (*Genesis 18:12*)

I helpu'r Iddewon dywedodd Esther 'os trengaf, mi drengaf'. (*Esther 4:16*)

Dywedodd y wraig â'r gwaedlif 'os cyffyrddaf hyd yn oed â'i ddillad, fe gâf fy iachau'. (*Marc 5:28*)

Ar ôl agor ei chalon i Dduw agorodd Lydia ei chartref – 'arhoswch yn fy nhŷ' (*Actau 16:15*)

Mar grym yn perthyn i lais, a gellir ei ddefnyddio i ddyrchafu, i alluogi a chynnal yn ogystal ag i ddarostwng. Ni ellir dad-ddweud geiriau unwaith y lleferir hwy. Pan yw lleisiau ynghudd

yn nistawrwydd y byd, heb eu clywed, neb yn eu heisiau, yn cael eu diystyru am fod yn ddiwerth, maen nhw'n dwyn anghyfartaledd, ofn a barn.

Ni yw'r rhai y gelwir arnom i ddethol geiriau i fynegi ffydd, cariad, gobaith, geiriau i chwilio i ystyr bod yn fenyw, a bod yn wryw, gan geisio cyfiawnder a chyfartaledd i bawb yn y byd hwn. Mae'n geiriau ni yn bwysig.

Gall ein geiriau wneud gwahaniaeth. Sut allwn ni sicrhau y clywir ein geiriau? Beth allwn ni ddysgu oddiwrth y lleisiau a fygwyd ?

Down allan o'r cilfachau mewn cymdeithas, y safonau 'arferol' bondigrybwyll, mewn ymddygiad, lle a statws,

Ddyrchafaf fy llais, Soniaf amdanaf fy hun,

Geiriau'n llawn cyfoeth a ffydd,

Geiriau'n ceisio cyfiawnder a thangnefedd,

Geiriau'n dyheu am gael eu clywed y tu hwnt i'r disgwyl.

Fy llais i, ti a'i rhoddaist i mi, O Dduw,

Ni chaiff fy llais i mo'i fygu. Amen

Lleisiau a fygwyd un waith- bellach yn cael eu clywed

Allan o gilfachau cymdeithas yn ymgryfhau, yn ceisio llecyn o groeso, a gwrandawriad.

Rwy'n sôn amdanaf fy hun, fi, llais llawn sŵn tonnau'n torri ar y traeth

Grug yn tywallt i lawr y mynydd

Llais i lefaru mewn pentref a thref.

**Llais i lefaru am yr hawl i gael fy nghlywed**

**A'm derbyn. Oherwydd y mae Duw yn rhoi croeso i mi**

**Yn fy ngalw, yn fy nghyfarwyddo, yn fy nghalonogi**

**I fynnu lle yn y neuadd ddarlithio ac Ystafell y Bwrdd,**

**Mewn cartref ac ysgol ac eglwys**

**Does 'na ddim unman lle na allaf**

**Fynd a mynnu lle.**

**Amen**

Lluniwyd gan y Parchg Janet Fletcher, Esgobaeth Bangor ac aelod o Grŵp St Deiniol a MAECymru